JAMES, JOHN (1815 - 1869), bardd ac emynydd

Enw: John James
Dyddiad geni: 1815
Dyddiad marw: 1869
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd ac emynydd
Maes gweithgaredd: Crefydd; Barddoniaeth
Awdur: Moelwyn Idwal Williams

Ganwyd yn Tregolwyn, Bro Morgannwg. Pan yn blentyn tair blwydd collodd ei olwg. Er ei amddifadu o fanteision addysg foreol, daeth yn awdur nifer o emynau a phenillion. Cyhoeddwyd llawer o'i gyfansoddiadau: *Seren Bethlehem* (Penybont, 1849; ail arg., Aberd âr, 1865); *Casgliad o Emynau Gwreiddiol* (Aberdâr - heb ddyddiad), wedi ei gyfieithu gan Isaac Jenkins; *Twyni Tregolwyn* (Aberdâr, 1864). Yr oedd yn aelod gyda'r Wesleaid yn Nhregolwyn. Bu farw Mawrth 1869, a'i gladdu ar y 19eg o'r mis yn Nhregolwyn.

Awdur

Dr Moelwyn Idwal Williams

Ffynonellau

Rhagair i *Seren Bethlehem sef hymnau gwreiddiol, ar wahanol destynau crefyddol* (Penybont 1859) (Penybont, 1859)

Twyni Tregolwyn ynghyda chaniadau moesol a difyrus, ar wahanol destynau (Aberdâr 1864)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20738105

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu